Daniel Roberts
Ysgol Ffridd Y Llyn
Cefnddwysarn
Bala
Gwynedd
LL23 7HE

03/03/2025

Annwyl Daniel

**Ymweliad Interim:** Ionawr 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Bro Tryweryn ac Ysgol Ffridd y Llyn; sef ffederasiwn Cysgod y Foel. Bu i'r tîm ystyried y cynnydd y mae'r ysgolion wedi eu gwneud wrth fynd i'r afael â dau o'r argymhellion o'i harolygiad craidd ym mis Ionawr 2024. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny. Dylai arweinwyr ddefnyddio'r canfyddiadau hyn i gefnogi mwy o welliannau yn y meysydd hyn.

Yn ystod yr ymweliad, cawsom gyfle i ymweld â dosbarthiadau'r ddwy ysgol, trafod gyda disgyblion, staff, arweinwyr a llywodraethwyr ynghyd a chraffu ar dystiolaeth perthnasol a gwaith y disgyblion. Mae'r sylwadau isod yn cyfleu ein darganfyddiadau cyffredinol ynglŷn a'r ddwy ysgol yn y ffederasiwn

**Ffocws yr ymweliad**

**Sicrhau fod gweithgareddau dysgu yn herio'r disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu**

- Mae arweinwyr wedi canolbwyntio'n ystyrlon ar fynd i'r afael â'r argymhelliad. Mae hyn yn cynnwys defnyddio gwybodaeth synhwyrol o'u prosesau hunan arfarnu, fel teithiau dysgu, craffu ar lyfrau a'u cynlluniau cwricwlaidd, er mwyn gosod cyfeiriad gwella rhesymol.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Maent wedi buddsoddi amser ac adnodd ar gyfer cryfhau’r ddarpariaeth, gan gynnwys gwella dulliau asesu ac olrhain cynnydd a chydweithio gydag ysgolion cyfagos er mwyn darganfod a defnyddio arferion da.
- Bellach, mae lefel her briodol o fewn gweithgareddau sy’n cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau’n bwrpasol. Ar y cyfan, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dyfalbarhau a’u tasgau’n effeithiol ac yn cyflawni ar lefel sy’n cyfateb i’w hoed a’u cyfnod. Er hyn, mae ychydig iawn o enghreifftiau yn parhau ble nad yw’r tasgau dysgu yn cyfateb yn ddigon craff at allu’r disgyblion ac ambell enghraifft o or-arwain y dysgu. Mae arweinwyr yn parhau i roi ffocws ar wella hyn.

**Cryfhau effeithiolrwydd arweinwyr, gan gynnwys y corff llywodraethol, er mwyn iddynt gyd weithredu ar draws y ffederasiwn yn fwy strategol er mwyn mynd i’r afael â blaenoriaethau gwella.**

- Mae’r sefyllfa staffio bellach wedi ei sefydlogi gyda phenodiad pennaeth dros dro hyd at Awst 2025. Mae hyn wedi rhoi rhagor o sicrwydd a chysondeb ar draws ysgolion y ffederasiwn.
- Mae’r pennaeth mewn gofal wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer cynnal a datblygu’r ffederasiwn ymhellach. Mae arweinwyr yn cydweithio er mwyn cysoni ac adeiladu ar arferion cryfaf y ffederasiwn, gan ddathlu hunaniaeth unigryw'r ddwy ysgol hefyd.
- Bellach, mae cyfleoedd rheolaidd a buddiol i benaethiaid cynorthwyol a staff y ddwy ysgol gydweithio’n fwy agos wrth drafod a mireinio’r ddarpariaeth. Maent yn cyd-gynllunio a chraffu ar wahanol agweddau o’r ddarpariaeth ac yn gwerthuso gwaith yr ysgolion, cydnabod cryfderau, a chynllunio ar gyfer gwella. Enghraifft o’r cydweithio buddiol hwn yw’r modd y mae’r athrawon wedi cael cyfleoedd i drafod agweddau o addysgeg effeithiol er mwyn cryfhau’r ddarpariaeth ar draws y ffederasiwn.
- Mae aelodau’r corff llywodraethol yn cydweithio’n agos gyda’r pennaeth mewn gofal, arweinwyr eraill a staff y ffederasiwn. Erbyn hyn, maent yn chwarae rôl mwy strategol wrth fynd i’r afael â’r blaenoriaethau gwella. Dyrannwyd cyfrifoldeb am wahanol feysydd dysgu a phrofiad i aelodau’r corff, ac mae amserlen pwrpasol wedi ei threfnu ar gyfer cynnal gweithgareddau craffu ar y cyd gydag athrawon ac arweinwyr. Mae hyn yn rhoi mwy o ddealltwriaeth iddynt o gynnydd disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth. O ganlyniad, mae ganddynt afael gadarn ar yr hyn sydd angen ei wella.
- Mae’r cynllun datblygu ysgol cyfredol yn darparu fframwaith effeithiol ar gyfer gwella’r ddarpariaeth. Yn ogystal â meysydd cwricwlaidd, mae arweinwyr wedi adnabod pwysigrwydd cynnal lles disgyblion a staff er mwyn cynnal ffederasiwn gwydn a chyd weithredol i’r dyfodol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6612220

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol